**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **13 CHWEFROR 2012** |
| TEITL | **CYNNYRCH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **AMLINELLU GWAITH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD HYD AT 31 RHAGFYR 2011** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR ARCHWILIO A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNWYS A CHEFNOGI'R ARGYMHELLION SYDD EISIOES WEDI'U CYFLWYNO I'R GWASANAETHAU PERTHNASOL ER GWEITHREDIAD** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Tachwedd 2011 hyd at 31 Rhagfyr 2011.

## 2. GWAITH A GWBLHAWYD YN Y CYFNOD

2.1 Cwblhawyd y gwaith canlynol yn y cyfnod hyd at 31 Rhagfyr 2011:

| Disgrifiad | Nifer |
|---|---:|
| Adroddiadau am Archwiliadau o'r Cynllun Gweithredol | 17 |
| Adroddiadau Eraill (memoranda ayb) | 5 |
| Adolygiadau Grant | 4 |
| Archwiliadau Dilyniant | 1 |
| Archwiliadau Ymatebol | 2 |

Ceir manylion pellach ar y gwaith yma yng nghorff yr adroddiad hwn ac yn yr atodiadau amgaeëdig.

## 2.2 Adroddiadau Archwilio

2.2.1 Mae'r tabl canlynol yn gosod allan yr archwiliadau o'r cynllun a gwblhawyd yn y cyfnod hyd at 31 Rhagfyr 2011, gan ddangos y categori barn perthnasol a chyfeiriad i'r atodiad perthnasol.

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| Iechyd a diogelwch - tripiau ysgol | Addysg | Ysgolion | C | Atodiad 1 |
| Trefniadau Cofnodi a Rheoli Salwch | Corfforaethol | | C | Atodiad 2 |
| System Fancio Electronig | Cyllid | Buddsoddi a Rheolaeth Trysorlys | A | Atodiad 3 |
| System Gyflogau - Cyflogau Misol Gweithwyr Llaw | Cyllid | Pensiynau a Chyflogau | B | Atodiad 4 |
| Budd-daliadau - Cinio Ysgol am Ddim | Cyllid | Refeniw | B | Atodiad 5 |
| Budd-daliadau - Lwfans Gwisg Ysgol | Cyllid | Refeniw | B | Atodiad 6 |
| Defnydd Cyfrifiaduron Llaw gan Ofalwyr Cartref | Darparu a Hamdden | Cefnogaeth Busnes a Gweinyddiaeth | B | Atodiad 7 |
| Trefniadau Bancio yn y Canolfannau Hamdden | Darparu a Hamdden | Hamdden | B | Atodiad 8 |
| Amgueddfa ac Oriel Gwynedd | Economi a Chymuned | Archifau, Amgueddfeydd a Chelfyddydau | B | Atodiad 9 |
| Amgueddfa Lloyd George | Economi a Chymuned | Archifau, Amgueddfeydd a Chelfyddydau | B | Atodiad 10 |
| Cynllun Canolfan Rhagoriaeth Eryri | Economi a Chymuned | Prosiectau Sylweddol | B | Atodiad 11 |
| Manddaliadau | Gofal Cwsmer | Tir ac Eiddo'r Cyngor | C | Atodiad 12 |
| Trefn Gwyno Gwasanaethau Cymdeithasol | Gwasanaethau Cymdeithasol | Busnes | B | Atodiad 13 |
| Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid | Gwasanaethau Cymdeithasol | Plant a Theuluoedd | B | Atodiad 14 |
| Defnydd Is-Gontractwyr, Uned Darparu Gwaith | Priffyrdd a Bwrdeistrefol | Gwaith Priffyrdd | B | Atodiad 15 |
| Prosiect Gorfodaeth Amgylcheddol | Priffyrdd a Bwrdeistrefol | Rheoli Gwastraff a Strydoedd | B | Atodiad 16 |

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| Rheolaeth Datblygu - Penderfyniadau Dirprwyedig | Rheoleiddio | Cynllunio | A | Atodiad 17 |

2.2.2 Mae categorïau barn yr adroddiadau yn datgan y canlynol:

Barn "A" Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.

Barn "B" Mae rheolaethau mewn lle, a gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol gan fod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau.

Barn "C" Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth.

Barn "CH" Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan nad oes rheolaethau derbyniol yn bodoli, a darganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth hyn.

2.2.3 Yn ogystal â'r uchod, cynhaliwyd yr archwiliadau isod lle cynhyrchwyd memorandwm yn hytrach nag adroddiad llawn, a ni roddwyd categori barn:

- **Rheoli Contractau - Ysgol yr Hendre** *(Corfforaethol).* Mae hwn yn gynllun i adeiladu ysgol gynradd newydd yng Nghaernarfon. Ariennir rhan o'r cynllun gyda chymorth gwerth £4.3 miliwn o grant Fframwaith Buddsoddi Cyfalaf Strategol gan Llywodraeth Cymru. Mae'r prif waith adeiladu wedi ei ennill gan Wynne Construction drwy dendr ac mae'r cytundeb cynllunio ac adeiladu yn werth £7.4m. Roedd yr archwiliad yma yn edrych ar reolaeth prosiect adeiladu'r Ysgol drwy gynnal profion archwilio ar 21 rheolaeth fewnol. Dangosodd y profion fod rheolaethau mewnol dda neu foddhaol yn bodoli yn 20 o'r meysydd hyn.
- **Gordaliadau Pensiwn** *(Cyllid).* Bwriad yr archwiliad oedd adolygu'r trefniadau sydd mewn lle ar gyfer adnabod ac adennill gordaliadau pensiwn (yn bennaf oherwydd marwolaeth). Detholwyd sampl o ordaliadau pensiwn a ddigwyddodd yn 2011/12 a gwelwyd fod trefniadau cadarn yn eu lle. Ar hyn o bryd mae'r Uned Pensiynau yn ymdrechu i adhawlio unrhyw ordaliad pensiwn sydd dros £50 ac mae llawer o amser ac adnoddau staff yn cael eu defnyddio yn ceisio adennill symiau cymharol isel. Mae'r trothwy yma wedi ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Pensiynau.
  Ymhellach, bu i'r archwiliwr ymholi beth oedd trefniadau cronfeydd pensiwn eraill mewn perthynas â gordaliadau. Yn sgil yr adolygiad o'r trefniadau ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd a'r gwaith ymchwil a wnaethpwyd, awgrymwyd rhaid pwyntiau, sydd ym marn yr archwilwyr yn ymarfer da sydd wedi eu mabwysiadu gan Gronfeydd Pensiwn eraill, i'w hystyried fel arf i hwyluso a lliflinio'r broses.

- **Trefniadau Atal Twyll - "Llyfr Coch" CIPFA** *(Corfforaethol).* Mae CIPFA wedi cyhoeddi dau gyfrol o'u "Llyfr Coch", sef arf diagnostig er mwyn cynnal hunanasesiad o wydnwch yr awdurdod i wrthsefyll risg twyll. Cynhaliwyd asesiad ar y Cyngor gan Archwilio Mewnol, ac ar sail system sgorio "RAG" (h.y. Coch, Melyn, Gwyrdd), roedd y Cyngor yn sgorio'n felyn ar y cyfan, sef risg canolig. Darparwyd cynllun gweithredu er mwyn cau'r bylchau a adnabuwyd yn ystod y dadansoddiad. Mae'r camau gweithredu yn cynnwys:
  - Diweddaru Diogelwch a Gwrth-dwyll (Budd-dal Tai a Threthi) yr Uned Ymchwiliadau Budd-dal
  - Diweddaru'r Strategaeth Gwrth-Dwyll a Gwrth-Lygredd Corfforaethol i gynnwys cyfeiriad i'r Deddf Llwgrwobrwyaeth
  - Mwy o gyhoeddusrwydd i godi ymwybyddiaeth o bolisïau a strategaethau megis y Strategaeth Gwrth-Dwyll a Gwrth-Lygredd a'r Polisi Canu'r Gloch ac i bwysleisio agwedd elyniaethus y Cyngor i dwyll a lladron
  - Cynnwys y Risg o Dwyll yn y Gofrestr Risg Trawsadrannol a sefydlu methodoleg er mwyn amcangyfrif colledion potensial i'r Cyngor oherwydd twyll
  - Gwaith pellach i ystyried y budd o sefydlu cyllideb benodol ar gyfer gwaith gwrth-dwyll corfforaethol
  - Ystyried manteision ac anfanteision hyfforddi unigolyn ar gyfer cymhwyster penodol mewn ymchwilio i dwyll
  - Asesu trefniadau recriwtio
  - Sefydlu protocol neu drefniadau rhwng y Cyngor a Heddlu Gogledd Cymru er mwyn ymchwilio i achosion o dwyll a chymryd camau troseddol
  - Codi ymwybyddiaeth a chwrs hyfforddi syml i staff gan ddefnyddio system CALMS y Cyngor
  - Adolygu a ffurfioli canllawiau ymchwilio i staff Archwilio Mewnol.

- **Ardystio a Cywirdeb Codio Anfonebau o fewn Adrannau'r Cyngor** *(Corfforaethol).* Gwiriwyd 11 swp ar hap o anfonebau a broseswyd yn ystod y flwyddyn ariannol 2010/11, sef cyfanswm o 323 anfoneb. Roedd y profion a gynhaliwyd yn cynnwys gwirio:
  - Bod yr anfonebau yn wreiddiol, h.y. ar 'headed paper'
  - Bod enw a chyfeiriad y credydwr ar yr anfoneb
  - Bod manylion digonol am y nwyddau/gwasanaethau a gyflenwyd
  - Bod rhif cofrestru TAW dilys ar yr anfoneb ynghyd â chyfradd y TAW
  - Bod y nwyddau/gwasanaethau a fanylir ar yr anfonebau wedi eu codio yn erbyn y cod gwariant perthnasol
  - Bod yr anfonebau wedi eu hardystio'n briodol.

  Ar y cyfan, gwelwyd fod ymdriniaeth y Cyngor o Dreth ar Werth ar yr anfonebau y mae yn eu derbyn yn gywir a phriodol. Yn yr un modd, yn y mwyafrif o achosion roedd y trefniadau ardystio wedi bod yn gywir. Y prif wendid a ddarganfuwyd yn ystod yr archwiliad yma (ac mewn archwiliadau eraill a gynhaliwyd yn ddiweddar) oedd camgodio gwariant. Mae angen gwella safon codio gwariant ar draws yr holl adrannau, er mwyn sicrhau fod datganiadau ariannol yn adlewyrchu'n gywir wariant y Cyngor ar wahanol nwyddau, gwasanaethau, gweithgareddau neu brosiectau.

## 2.3 Grantiau

2.3.1 Adolygwyd gweithdrefnau gweinyddol y grantiau canlynol yn ystod y cyfnod:

- Grant Gwisg Ysgol *(Addysg)*
- Grant Llwybrau Dysgu 14-19 *(Addysg)*
- Grant Addysg ôl-16 *(Addysg)*
- Cronfa Datblygiad Cynaliadwy AHNE Llyn *(Rheoleiddio)*

2.3.2 Nid yw'r ffaith fod Archwilio Mewnol wedi adolygu'r grantiau yma yn golygu na fydd archwilwyr allanol o Swyddfa Archwilio Cymru neu gyrff eraill yn cynnal archwiliadau o'r grantiau yma hefyd. Fodd bynnag, disgwylir fod y gwaith y mae Archwilio Mewnol, a'r sicrwydd y bu'n bosib ei ddatgan am yr amgylchedd reolaeth, yn golygu y bydd angen llai o waith archwilio gan y cyfundrefnau hyn. Bydd hyn, yn ei dro, yn golygu lleihad yn y ffioedd y bydd yn rhaid i'r Cyngor ei dalu am archwiliadau allanol.

## 2.4 Archwiliadau Dilyniant

2.4.1 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r gwaith dilyniant a gwblhawyd yn ystod y cyfnod:

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN DILYNIANT |
|---|---|---|---|
| Diweddaru'r Wefan | Gofal Cwsmer | Cyswllt Cwsmer | **Derbyniol** |

2.4.2 Gosodir casgliadau gwaith dilyniant mewn un o bedwar categori:

**Rhagorol** – pob un o'r argymhellion wedi eu gweithredu yn unol â'r disgwyl.

**Derbyniol** – y rhan fwyaf o'r argymhellion, gan gynnwys y mwyafrif o'r argymhellion "hanfodol", wedi eu gweithredu yn ôl y disgwyl.

**Anfoddhaol** – nifer o'r argymhellion heb eu gweithredu.

**Annerbyniol** – y mwyafrif o'r argymhellion (gan gynnwys argymhellion pwysig) heb eu gweithredu, a dim tystiolaeth o ymdrech i wella rheolaeth fewnol.

2.4.3 Mae'r rhestr isod yn dangos yr Adroddiadau Barn 'C' neu 'CH' a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio fel atodiadau i'r adroddiadau chwarterol, lle nad yw'r adroddiad dilyniant wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor eto. Mae'r rhestr yn dangos y dyddiad sy'n darged cwblhau pob un o'r archwiliadau dilyniant hyn:

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 31 Rhagfyr 2011**
Cysoni Incwm Parcio a Dirwyon

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 31 Mawrth 2012**
Diogelu Data Teledu Cylch Cyfyng
Uned Cludiant Cyhoeddus
Gwirio Dangosyddion Perfformiad
Rheolaeth Ffonau Symudol
Gorchmynion Ffyrdd

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 30 Mehefin 2012**
Trefniadau TG i Aelodau

## 2.5 Archwiliad Ymatebol

2.5.1 Cwblhawyd ymchwiliad ymatebol ar ôl i gyflenwr wneud honiadau am drefniadau arbechu annheg ac amhriodol. Casgliad yr archwiliad oedd nad oedd tystiolaeth o afreoleidd-dra gan fod unigolyn oedd â chysylltiad teuluol ag un o'r cyflewnwyr wedi datgan diddordeb ac wedi cymryd cam yn ôl o'r broses caffael. Fodd bynnag, mae'r archwiliwr o'r farn y dylai cynigion cystadleuol gan 3 cyflenwr cyn gwneud penderfyniad i dreialu un cwmni yn unig.

2.5.2 Bu Archwilio Mewnol hefyd yn cynorthwyo'r Adran Economi a Chymuned gyda gwaith 'due diligence' mewn perthynas â chontractau potensial.

## 3. GWAITH AR Y GWEILL

3.1 Roedd y gwaith canlynol ar y gweill ar 1 Ionawr 2012.

### 3.2 Adroddiadau Drafft wedi eu rhyddhau

- Prydlondeb Taliadau *(Gwasanaethau Cymdeithasol)*
- Tai gyda Chefnogaeth *(Darparu a Hamdden)*

### 3.3 Archwiliadau yn mynd rhagddynt

- Canolfan Hamdden Blaenau Ffestiniog *(Addysg)*
- Consortiwm Addysg Gogledd-Orllewin Cymru *(Addysg)*
- Grant Prosiectau Peilot yn Ymwneud ag Ymddygiad a Phresenoldeb *(Addysg)*
- Ysgolion Cynradd - Trefniadau Lleihau Baich Gwaith Athrawon *(Addysg)*
- Cyn-stoc Tai - Arian Dargadw *(Corfforaethol)*
- NFI (Y Fenter Twyll Genedlaethol) *(Corfforaethol)*
- Rheoli Contractau - Adfywio Ffisegol yng ngogledd Cymru *(Corfforaethol)*
- Prif System Gyfrifo *(Cyllid)*
- Taliadau - Statws Cyflogaeth *(Cyllid)*
- Rheolaeth Cronfeydd Answyddogol *(Darparu a Hamdden)*
- Diogelwch Gwybodaeth *(Gofal Cwsmer)*
- Gwasanaethau Cymdeithasol - Diogelwch Ffeiliau a Gwybodaeth *(Gwasanaethau Cymdeithasol)*
- Rheolaeth Prosiect, Gwasanaethau Cymdeithasol *(Gwasanaethau Cymdeithasol)*
- Dilyniant - Gorchmynion Ffyrdd *(Rheoleiddio)*
- Dethol Contractwyr - Amddiffyn yr Arfordir *(Ymgynghoriaeth Gwynedd)*

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn ar waith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Tachwedd 2011 i 31 Rhagfyr 2011, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r argymhellion sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er gweithrediad.

# IECHYD A DIOGELWCH - TRIPIAU YSGOL
## Addysg

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw i sicrhau fod y drefn iechyd a diogelwch briodol yn cael ei ddilyn wrth drefnu a mynd ar dripiau ysgol fel y gellid lliniaru'r risg o unrhyw beth fynd o'i le.

Cwmpas yr Archwiliad

Gwirio cofnodion sampl o ysgolion uwchradd a chynradd i sicrhau eu bod wedi cydymffurfio â gofynion iechyd a diogelwch wrth drefnu trip ysgol.

Prif Ddarganfyddiadau

Y prif wendidau a ddarganfuwyd wrth gynnal yr archwiliad yma oedd y diffyg ymwybyddiaeth o’r gweithdrefnau iechyd a diogelwch newydd mewn un ysgol a dim hyfforddiant wedi ei dderbyn yn yr ysgol yma. Fel arall, gwelwyd fod rhai o’r ysgolion uwchradd ddim bob amser yn defnyddio’r system electronig 'Evolve' a ddim wedi dilyn y drefn gywir o hysbysu wrth ddefnyddio’r drefn bapur, ond ar y cyfan gwelwyd bod trefniadaeth drefnus yn yr ysgolion. Mae’n bwysig cofio hefyd fod amserlen ar gyfer hysbysu a derbyn cymeradwyaeth a bod angen cadw i honno.

**Barn yr Archwiliad**

**(C) Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb yn nhrefniadau gweinyddol y maes Iechyd a diogelwch - tripiau ysgol gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylai Penaethiaid sicrhau eu bod yn ymwybodol o unrhyw newidiadau i drefniadau Iechyd a Diogelwch drwy ddarllen y cylchlythyr. Yn ogystal, dylid sicrhau cydymffurfiaeth â'r newidiadau.**

- **Dylid sicrhau fod o leiaf un athro o bob ysgol wedi bod ar y cwrs hyfforddiant i Gydlynwyr Ymweliadau Addysgol.**

- **Dylid sicrhau fod asesiad risg priodol ar gyfer pob trip.**

- **Dylid sicrhau fod y ffurflenni perthnasol sy'n ymwneud ag ymweliadau addysgol yn cael eu hanfon ymlaen o fewn yr amser penodol.**

- **Dylid sicrhau bod y gweithdrefnau'n cael eu dilyn a bod y swyddogion perthnasol yn cael eu hysbysu lle'n berthnasol.**

# TREFNIADAU COFNODI A RHEOLI SALWCH
## Corfforaethol

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw adolygu'r trefniadau sydd mewn lle ar gyfer rheoli absenoldebau salwch ar draws y Cyngor.

Cwmpas yr Archwiliad

Bydd yr archwiliad yn canolbwyntio ar y mesurau sydd mewn lle i gofnodi ac adolygu absenoldebau salwch, trefniadau cyfeirio at y Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol ynghyd â'r mesurau sydd wedi eu sefydlu ar gyfer rheoli a lleihau absenoldebau yn sgil salwch. Nid yw'r archwiliad yma yn cynnwys adolygiad o weithredu addasiadau cyflog yn sgil salwch.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd fod y Cyngor wedi adnabod absenoldebau drwy salwch neu anaf fel ffactor sydd angen sylw er lles yr Awdurdod a'i staff. Mae polisïau a gweithdrefnau corfforaethol wedi eu llunio gyda'r amcan o leihau'r nifer o ddyddiau absenoldebau, a bod cyflwyniadau a hyfforddiant ar gyfer rheolwyr wedi eu cynnal fel bod modd gweithredu arnynt. Gwelwyd fod ystadegau absenoldebau yn cael eu monitro a'u hadrodd fel dangosydd perfformiad corfforaethol.
Darganfuwyd nad oedd staff wedi eu cyfeirio i'r Uned Iechyd Galwedigaethol fel y disgwylir - roedd canrannau uchel o achosion absenoldeb straen a salwch tymor hir lle nad oedd staff wedi cael eu cyfeirio yn unol â'r polisi mewn lle. Nodwyd fod Gweithgor Rheoli Absenoldebau wedi ei sefydlu, a fod ganddo fesurau mewn lle i ymateb i'r diffyg gweithredu cyffredinol mewn perthynas ag achosion o straen ymhlith staff.
Mae rhai o'r materion ddaeth i sylw yn ystod yr archwiliad yn deillio o ddiffygion yn y system gyfrifiadurol a ddefnyddir. Mae'r archwilwyr yn ymwybodol o'r cynlluniau i bwrcasu system integredig newydd ar gyfer agweddau adnoddau dynol a chyflogaeth, ond gwelwyd enghreifftiau lle mae math o drosglwyddo data o un modiwl i'r llall eisoes yn cael ei ddefnyddio, ac mae'r archwilwyr o'r farn y dylid ystyried ehangu hynny.
Ymhellach i hynny, nodwyd nad oes gan yr Uned Iechyd Galwedigaethol system gyfrifiadurol ar gyfer eu cofnodion. Gwelwyd mai ffeiliau papur yw prif gofnod yr Uned, gyda taenlen syml fel system mynegeio ar gyfer y ffeiliau hynny.
O safbwynt codi ymwybyddiaeth am y gweithdrefnau a'r polisïau mewn lle, ac yn benodol unrhyw addasiadau neu ddatblygiadau iddynt, byddai'r archwilwyr yn awgrymu cynnal fersiynau electroneg yn unig mewn lleoliad amlwg ar y mewnrwyd, gan ddarparu fersiynau papur i'r rheolwyr hynny sydd heb fynediad i'r mewnrwyd.

**Barn yr Archwiliad**

**(C)** **Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb yn nhrefniadau Cofnodi a Rheoli Salwch gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau fod fersiynau electroneg o'r polisïau a gweithdrefnau sydd yn ymwneud â cofnodi a rheoli salwch yn cael eu cadw a'i cynnal mewn safle amlwg ar y mewnrwyd.**

- **Dylid anelu i dorri'r aneffeithlonrwydd sydd yn berthynol â sefydlu cofnodion absenoldebau salwch drwy sefydlu trefn o drosglwyddo'r cofnod cyntaf a wnaed i phob modiwl a/neu system sydd ei angen wedyn, yn hytrach na pasio yr un gwybodaeth ymlaen i amryw o swyddogion i'w brosesu.**

# SYSTEM FANCIO ELECTRONIG
## Cyllid

Bwriad yr Archwiliad
Bwriad yr archwiliad yw adolygu'r mesurau a'r trefniadau mewn perthynas â'r system fancio electronig.

Cwmpas yr Archwiliad
Adolygu trefniadau diogelwch y system o safbwynt technoleg, mynediad a gweithrediadau awdurdodedig, sicrhau bod y system yn bwydo i'r brif system ariannol a bod trefniadau wrth gefn digonol mewn lle er mwyn cydymffurfio â chanllawiau ymarfer gorau'r banc ac Arferion Rheolaeth Trysorlys y Cyngor.

Prif Ddarganfyddiadau
Darganfuwyd yn ystod yr archwiliad bod mesurau diogelwch corfforaethol y Gwasanaeth TG yn cwrdd â gofynion ymarfer gorau y banc o safbwynt bodolaeth wal dân, defnydd o'r fersiwn diweddaraf o'r cymwysiadau megis porwr gwe ynghyd â meddalwedd gwrth-firws gweithredol. Yn ogystal, ar gyfer y cyfrifiaduron a ddefnyddir ar gyfer bancio electronig, bu i'r Gwasanaeth TG osod cynnyrch cyfrifiadurol ychwanegol arnynt sydd yn cynnig darpariaeth diogelwch o'r safon uchaf drwy ddefnyddio allwedd cyhoeddus cryptograffeg (public key cryptography). Darganfuwyd bod cymal yn y cytundeb bancio yn mynegi y dylai'r Cyngor hysbysu'r Banc o unrhyw ddiffygion, firws neu wallau a amlygir wrth dderbyn neu anfon cyfarwyddiadau. Esboniwyd gan weinyddwyr y system mai hwy, yn hytrach na'r Gwasanaeth TG, fuasai'n hysbysu'r banc.

Gwelwyd bod swyddogion priodol wedi eu penodi yn weinyddwyr y system fancio electronig ac nid oedd swyddogion annilys gyda mynediad i'r system.

Gwiriwyd sampl o drosglwyddiadau mewnol (rhwng yr amrywiol gyfrifon) a thaliadau CHAPS a ddetholwyd, a darganfuwyd bod y trosglwyddiadau mewnol wedi eu mewnbynnu a'u gwirio'n briodol ac y cafodd y taliadau CHAPS eu gweithredu yn unol â phwynt 5.10 o'r Arferion Rheolaeth Trysorlys. Yn ogystal, meddiannwyd tystiolaeth i gadarnhau bod y trosglwyddiadau mewnol a'r taliadau CHAPS yn ymddangos yn y brif system ariannol yn gywir.

Gwelwyd bod y Cyngor yn anfon manylion sensitif i'r Banc drwy e-bost, ond nad yw'r e-byst wedi eu hamgryptio i ddiogelu'r wybodaeth sensitif. Fodd bynnag, gwelwyd bod rheolaethau cydadfer digonol yn bodoli ac mai trosglwyddiadau rhwng cyfrifon y Cyngor yn unig yw'r trafodion.

**Barn yr Archwiliad**

**(A) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn System Fancio Electronig gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle.**

# SYSTEM GYFLOGAU - CYFLOGAU MISOL GWEITHWYR LLAW
## Cyllid

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau fod trefniadau a rheolaethau priodol mewn lle ar gyfer cyflwyno manylion cyflogau staff drwy daenlenni.

Cwmpas yr Archwiliad

Gwirwyd y trefniadau mewn lle ar gyfer mewnbynnu oriau gwaith staff a throsglwyddo'r wybodaeth i'r system cyflogau er mwyn creu taliadau cywir. Adolygwyd y trefniadau ar gyfer yr unedau sydd yn cyflwyno manylion yn seiliedig ar echdyniad data sefydlog o'r system gyflogau ar adeg yr archwiliad. Ni adolygwyd y trefniadau ar gyfer yr unedau sydd yn cyflwyno data ar ffurf rhestr mewn taenlen gan y deallir y bydd rhain yn mabwysiadu'r drefn o seilio eu cyflwyniad ar echdyniad yn y dyfodol.

Prif Ddarganfyddiadau

O safbwynt talu cyflogau, profwyd y trosglwyddiadau data o'r cyflwyniadau i'r cyflogau i gyd yn gywir a chyflawn.

Gwelwyd fod trefniadau gweithredol mewn lle ym mhob un o'r unedau sydd yn cyflwyno data cyflogau drwy daenlen yn seiliedig ar echdyniad o ddata sefydlog, ond yn hytrach na cyflwyno trefn fwy effeithlon o weithredu, mae'r drefn wedi arwain at gynnydd gwaith sylweddol o fewn yr Uned Ieuenctid (Economi a Chymuned). Yn yr achos yma, teimlai'r archwilwyr fod sgôp i ddatblygu'r system rheoli (sydd wedi ei gynhyrchu yn fewnol gan y Gwasanaeth TG) er mwyn gwneud y gwaith o gyflwyno data cyflogau yn llawer mwy effeithlon ac hwylus.

Mae rheolaethau cydadfer wedi eu gosod i leddfu'r risgiau o gyflwyno data amhriodol yn sgîl diffyg goruchwylio'r prosesau mewnbwn. Mae'r archwilwyr yn gefnogol o'r egwyddor yma. Fodd bynnag, gwelwyd fod amgylchiadau ble mae data yn cael ei gyflwyno mewn tab ar y daenlen sydd ddim yn ddarostyngedig i'r rheolaethau yma. Yn y tymor hir mae'r archwilwyr o'r farn y dylid anelu i oresgyn y ffactorau sydd yn arwain at yr angen i gyflwyno data mewn tab ar wahân, ond yn y tymor byr dylid cyflwyno'r rheolaethau i'r holl dabiau i geisio sicrhau mewnbwn data priodol.

### Barn yr Archwiliad

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn System Gyflogau - Cyflogau Misol Gweithwyr Llaw gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Ar hyn o bryd, mae'n angenrheidiol i'r Gwasanaeth Ieuenctid gofnodi manylion sesiynau clwb ieuenctid mewn bas-data rheolaeth ar wahân i'r daenlen cyflogau, felly dylid datblygu'r bas-data sydd mewn lle fel ei fod yn creu allbwn a fydd yn ran o'r broses cyflwyno data cyflogau. Dylid ystyried un ai creu allbwn sydd yn bwydo yn uniongyrchol o'r bas-data i'r daenlen (felly yn diddymu dyblygiad gwaith yn y Gwasanaeth Ieuenctid) neu sydd o leiaf yn creu allbwn fyddai yn hwyluso'r broses mewnbynnu (felly yn creu trefn mwy effeithlon sydd am leihau'r pwysau amser).**

- **Gan mai un o brif reolaethau y drefn o gyflwyno data cyflogau ar ffurf taenlen yw'r ffaith bod y trefniant yn seiliedig ar echdyniad o ddata sefydlog, dylid anelu i sicrhau fod pob eitem a gofnodir yn eitemau o'r echdyniad ac felly'n diddymu'r angen i gyflwyno data ar dabiau ychwanegol, gan fod hynny'n tanseilio'r trefniadau sydd mewn lle.**

# BUDD-DALIADAU - CINIO YSGOL AM DDIM
## Cyllid

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu ar y ceisiadau cinio ysgol am ddim yn effeithiol, yn effeithlon ac yn gywir fel rhan sylweddol o ddarparu gwasanaeth cinio ysgol am ddim i ddisgyblion ysgolion Gwynedd.

Cwmpas yr Archwiliad

Gwirio sampl o geisiadau a dderbyniwyd ar gyfer plant sydd yn derbyn cinio am ddim a sicrhau bod y ceisiadau wedi cael eu hasesu yn gywir a'u bod yn gymwys i'r budd-dal, yn ogystal â sicrhau bod yr asesiadau wedi cael eu cynnal yn brydlon, a'r wybodaeth wedi cael ei ddosbarthu'n amserol.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd bod y gwasanaeth wedi trosglwyddo gwybodaeth o system reolaeth ariannol yr Adran Addysg, 'SIMS' i system 'Academy' yr Uned Budd-daliadau fel pwynt cychwynnol. O'r sampl a archwiliwyd, gwelwyd eu bod wedi cael eu hasesu yn unol â gofynion y cynllun cinio ysgol am ddim ar wahân i ddau gais ble dylai bod yr aseswyr wedi dileu'r teilyngdod fel sy'n briodol.

Gwelwyd bod y system yn ateb gofynion y gwasanaeth a bod budd-daliadau addysgol, h.y. cinio am ddim a lwfansau gwisg ysgol yn cael eu gweinyddu yn brydlon fel rhan o asesiad budd-daliadau tai a threthi. Fodd bynnag gwelwyd bod rhai anghysondebau wedi ymddangos yn sgil y trosglwyddiad megis ffeiliau dyblyg, a chyfeirnodau heb gofnodion o weithgareddau o gwbl yn eu herbyn.

Yn ogystal, eglurodd yr Uned Budd-daliadau bod hawliwr sydd yn byw tu allan i'r Sir yn ogystal â rhai sydd yn byw gyda pherthynas / personau annibynnol wedi eu cynnwys fel rhan o'r trosglwyddiad ond nad oedd modd cadarnhau teilyngdod i ginio am ddim drwy ddefnyddio'r system ymchwilio arferol, sef system Customer Information System (CIS) yr Adran Waith a Phensiynau. Defnyddir system 'FSM - Free School Meals' sydd wedi ei darparu gan Lywodraeth Cymru i wirio teilyngdod ar gyfer yr hawlwyr yma. Fodd bynnag, ni welwyd tystiolaeth ar gyfer pob cyfeirnod bod y gwiriadau wedi'u cynnal. Ymddengys ar gyfer dau o'r cyfeirnodau a wiriwyd bod yr hawl wedi cael ei ganiatáu yn dilyn y trosglwyddiad ond cyn i unrhyw wiriadau priodol gael eu cynnal. Eglurodd yr Uwch Swyddog Budd-dal a'r Rheolwr Budd-dal y dylai bod llythyr adolygiad wedi ei anfon i'r hawlwyr hyn fel bod gwiriadau yn cael eu cynnal ar y system 'FSM' cyn caniatau yr hawl i ginio am ddim.

Rhagwelwyd y byddai anawsterau yn ystod y trosglwyddo a gwelwyd bod yr uned wedi bod yn ragweithiol wrth fynd i'r afael â'r materion drwy sicrhau bod trefniadau wedi eu sefydlu i sicrhau cywirdeb a chyflawnrwydd cofnodion.

**<u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yng ngweinyddiaeth Budd-daliadau - Cinio Ysgol am Ddim gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod gwiriadau yn cael eu cynnal ar gyfer ceisiadau 'EdBens' yn ogystal â budd-daliadau tai a threthi fel rhan o fesur ansawdd a pherfformiad y gwasanaeth.**

**BUDD-DALIADAU - LWFANS GWISG YSGOL**
**Cyllid**

Bwriad yr Archwiliad
Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod taliadau grant gwisg ysgol wedi cael eu gweithredu'n briodol, sef bod y ceisiadau wedi cael eu hasesu, a'u talu yn gywir ac yn brydlon.

Cwmpas yr Archwiliad
Archwilio ceisiadau grant gwisg ysgol a sicrhau bod y ceisiadau sydd wedi cael eu gwobrwyo yn gymwys i'r lwfans. Gwirio trefniadau gwobrwyo grant a sicrhau eu bod yn briodol ac yn effeithlon. Gwirio sampl ar gyfer sicrhau bod taliadau wedi cael eu gwneud yn gywir ac wedi cael eu hawlio o fewn y terfyn amser.

Prif Ddarganfyddiadau
Darganfuwyd yn ystod yr archwiliad bod gwahaniad dyletswyddau yn bodoli rhwng yr Adran Addysg a'r Uned Budd-daliadau mewn perthynas â gweinyddu grantiau gwisg ysgol. Gwelwyd bod yr Uned Budd-daliadau yn gyfrifol am asesu a dosbarthu sieciau grant a ddyrannwyd dan gynllun grant gwisg ysgol Llywodraeth Cymru yn ogystal â'r lwfans sydd yn daladwy gan y Cyngor. Mae'r Adran Addysg yn gyfrifol am hawlio swm y grant gan Lywodraeth Cymru.
Mae'r cyfrifoldeb am weinyddu lwfans gwisg ysgol (yn ogystal â chinio am ddim) wedi ei drosglwyddo i'r Adran Cyllid fel rhan o gynlluniau arbedion effeithlonrwydd. Gwelwyd bod rhan helaeth o'r gwaith trosglwyddo wedi ei weithredu gan yr Uned Budd-daliadau o dan arweiniad yr Uwch Swyddog Budd-daliadau. Mae'r modiwl ychwanegol a brynwyd ar gyfer y system gweinyddu budd-daliadau, 'Academy Education Benefits - EdBens', wedi ei ffurfweddu a'i deilwra i gwrdd ag anghenion y cynllun lleol ac mae hefyd wedi arwain at ostyngiad yn yr amser gweinyddu ynghyd â'r gost gysylltiedig.

Eglurwyd y bu rhai problemau cychwynnol disgwyliedig yn y broses ac yn y trosglwyddiad. Yn ystod yr archwiliad, amlygwyd rhai problemau a fydd angen sylw er mwyn gwella a thynhau ar y trefniadau. Cyfeiriwyd y materion hyn at sylw'r Uwch Swyddog Budd-daliadau yn ystod yr archwiliad ac mae'r achosion eisoes yn derbyn sylw. Yn sgil darganfyddiadau'r archwiliad, adnabyddodd yr Uwch Swyddog Budd-daliadau bod gwallau wedi bodoli o safbwynt cydymffurfiaeth ag amodau'r grant yn y gorffennol sydd wedi parhau hyd heddiw. Mae'r Uwch Swyddog Budd-dal yn delio â'r mater sydd o dan sylw, yn benodol drwy drefnu gwelliannau i'r system er mwyn ei deilwra i ofynion yr amodau cywir ynghyd ag ail gyflwyno'r newidiadau i'r staff i'w galluogi i weithredu a phrosesu'r taliadau'n gywir yn ogystal â chynghori'r cyhoedd gyda'r wybodaeth gywir.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yng ngweinyddiaeth Budd-daliadau - Lwfans Gwisg Ysgol gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid trefnu bod canllawiau ar gyfer adennill gordaliadau yn cael eu sefydlu a bod hyn yn cael ei gyfathrebu rhwng y Gwasanaeth Budd-dal a'r Adran Addysg wrth ystyried unrhyw oblygiadau o amodau'r grant.**

# DEFNYDD CYFRIFIADURON LLAW GAN OFALWYR CARTREF
## Darparu a Hamdden

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau fod trefniadau diogelwch a gwybodaeth Cyfrifiaduron llaw Gofalwyr Cartref yn briodol.

Cwmpas yr Archwiliad
Archwilio prif feysydd diogelwch a gwybodaeth y Cyfrifiaduron llaw gan gynnwys cydymffurfiad â Chanllawiau'r Cyngor.

Prif Ddarganfyddiadau
Gwelwyd bod engreifftiau cryf o ymarfer da a rheolaeth oddi fewn defnydd cyfrifiaduron llaw i Ofalwyr Cartref. Fodd bynnag, gwlewyd bod nifer o fatertion angen sylw pellach gan gynnwys trafod gyda darparwr y cyfrifiaduron llaw ynghlyn â'r meddalwedd diweddaraf a sut i gyfyngu defnydd personol o'r teclynnau.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb Defnydd Cyfrifiaduron Llaw gan Ofalwyr Cartref gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod Polisi y Gwasanaeth wedi cael ei gymeradwyo gan Uwch Swyddogion perthnasol.**
- **Byddai'n ymarfer da petai'r canllawiau ar gyfer camddefnydd o'r teclynnau yn croes-gyfeirio i Bolisi Disgyblu corfforaethol y Cyngor.**
- **Mae angen trafod gyda'r darparwr er mwyn darganfod os oes modd cael meddalwedd sydd yn atal rhybuddion sydd wedi ei wneud mewn camgymeriad, er mwyn sicrhau bod y rhybuddion a dderbynnir yn y swyddfa yn rhai gwirioneddol sy'n sicrhau bod y camau cywir yn cael eu gwireddu.**
- **Dylid ymgynghori gyda'r darparwr er mwyn ceisio cael datrysiad sy'n cyfyngu defnydd personol o'r teclynnau.**

# TREFNIADAU BANCIO YN Y CANOLFANNAU HAMDDEN
## Darparu a Hamdden

Bwriad yr Archwiliad

Sicrhau bod rheolaethau mewnol yn bodoli wrth fancio arian yn y Canolfannau Hamdden er mwyn lliniaru'r risgiau gweithredol, a bod y rheolaethau hyn yn cael eu gweithredu.

Cwmpas yr Archwiliad

Dewisiwyd sampl o pum Canolfan Hamdden ar draws y sir i wirio eu trefniadau bancio. Ar gyfer y Canolfannau hyn, adolygwyd sampl o ddiwrnodau yn ystod blwyddyn ariannol 2010/11 a hanner cyntaf y flwyddyn ariannol 2011/12 a gwirio'r bancio ar gyflawnwyd ar y dyddiau hyn.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd bod enghreifftiau cryf o ymarfer da a rheolaeth gadarn oddi fewn trefniadau bancio y Canolfannau Hamdden a wiriwyd. Fodd bynnag, gwelwyd bod un maes lle mae angen sylw pellach ar y rheolaeth, sef sicrhau bod y gwaith o baratoi bancio yn cael ei wneud ar yr un noson, ac nid yn cael ei adael i swyddogion eraill bore trannoeth.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn nhrefniadau Bancio yn y Canolfannau Hamdden gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod Pwll Nofio Bangor yn ymchwilio dros wneud gymaint o ddefnydd o'r côd gwarged / diffyg er mwyn anelu i wneud llai o ddefnydd ohono yn y dyfodol.**

- **Dylid sicrhau bod Canolfannau yn dilyn y canllawiau IMS ac yn cwblhau y broses bancio yn ei gyfanrwydd pob nos.**

# AMGUEDDFA AC ORIEL GWYNEDD
## Economi a Chymuned

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau fod trefniadau yn Amgueddfa ac Oriel Gwynedd er mwyn rheoli a lliniaru risgiau yn briodol, ac yn unol â rheolau gweithdrefn ariannol y Cyngor a gweithdrefnau perthnasol eraill.

Cwmpas yr Archwiliad
Archwiliwyd y prif feysydd gwariant ac incwm yn ôl cyfriflyfr y Cyngor ar gyfer 2010//11 a 2011/12. Profwyd hefyd trefniadau'r Amgueddfa a'r Oriel er mwyn rheoli ystod amrywiol o risgiau.

Prif Ddarganfyddiadau
Y prif ddarganfyddiadau yn deillio o'r archwiliad yw bod trefniadau yn gyffredinol dda yn Amgueddfa ac Oriel Gwynedd, er hynny gwelwyd bod colled incwm wedi bod drwy bod y canran anghywir o gomisiwn ar werthiant nwyddau wedi bod yn cael ei ddal yn ôl ers mis Ebrill 2011.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Amgueddfa ac Oriel Gwynedd gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau fod dau swyddog yn cyfrif yr arian pan fo'r blwch rhodd yn cael ei wacáu a dylid cadw cofnod o'r swm a dderbyniwyd a dylai'r ddau swyddog arwyddo a dyddio'r cofnod.**
- **Dylid sicrhau fod ffurflen llogi safonol yn cael ei chreu a'i chwblhau pob tro mae rhywun yn llogi'r ystafell yn yr Amgueddfa**
- **Dylid parhau i ymdrechu i dderbyn cytundebau yn ôl wedi eu harwyddo gan yr artistiaid cyn bod yr arddangosfeydd yn cymryd lle.**
- **Dylid sicrhau fod gweithwyr yn hawlio costau teithio drwy'r ffurf priodol drwy gwblhau'r ffurflen costau teithio.**
- **Dylid sicrhau fod arian imprest yn cael ei hawlio yn ôl pan fod 2/3 o'r lefel wedi ei wario.**
- **Dylai'r Gwasanaeth Archifau, Amgueddfeydd a Chelfyddydau gyd-weithio gyda'r Gwasanaeth Cyfrifeg ac Ariannol er mwyn sicrhau fod gwerth yr asedau treftadaeth yn cael eu mewnosod ym mantolen ariannol 2011/12.**
- **Dylid sicrhau bod gwiriadau yn cael eu gwneud ar y larymau tân yn rheolaidd.**

# AMGUEDDFA LLOYD GEORGE
## Economi a Chymuned

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau fod trefniadau yn Amgueddfa Lloyd George er mwyn rheoli a lliniaru risgiau yn briodol, ac yn unol â rheolau gweithdrefn ariannol y Cyngor a gweithdrefnau perthnasol eraill.

Cwmpas yr Archwiliad
Archwiliwyd y prif feysydd gwariant ac incwm yn ôl cofnod cyfriflyfr y Cyngor ar gyfer 2010/11 a 2011/12. Profwyd hefyd trefniadau'r Amgueddfa er mwyn rheoli ystod amrywiol o risgiau.

Prif Ddarganfyddiadau
Y prif ddarganfyddiadau yn deillio o'r archwiliad yw bod trefniadau yn gyffredinol dda yn Amgueddfa Lloyd George.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Amgueddfa Lloyd George gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Mewn achlysuron lle mae'r ysgolion yn anghofio dod â siec gyda hwy i dalu am yr ymweliad addysgol, dylai staff Amgueddfa Lloyd George anfon e-bost i'r Uned Cefnogol yn manylu'r trosglwyddiad mewnol sydd angen ei wneud**

- **Byddai'n ymarfer da pe byddai gan yr Amgueddfa drefn o gofnodi'r rhesymau am yr ad-daliadau a wneir a bod system lle mae'r Prif Swyddog Amgueddfeydd a'r Celfyddydau yn gwirio yr adroddiadau o bryd i'w gilydd er mwyn monitro'r niferoedd o ad-daliadau a wneir.**

- **Dylid cynnal ymarferion tân yn rheolaidd yn yr Amgueddfa.**

- **Dylai'r Gwasanaeth Archifau, Amgueddfeydd a Chelfyddydau gyd weithio gyda'r Gwasanaeth Cyfrifeg ac Ariannol er mwyn sicrhau fod gwerth yr asedau treftadaeth yn cael eu mewnosod ym mantolen ariannol 2011/12.**

**CYNLLUN CANOLFAN RHAGORIAETH ERYRI**
**Economi a Chymuned**

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau fod trefniadau gweinyddol priodol yn bodoli wrth weinyddu'r Cynllun Rhagoriaeth Eryri.

Cwmpas yr Archwiliad
Gwirio ceisiadau a threfniadau eraill i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r telerau ac amodau sydd wedi eu nodi yn y llythyrau cynnig ac ym mholisïau WEFO.

Prif Ddarganfyddiadau
Gwelwyd fod rheolaethau mewnol priodol yn bodoli yn y mwyafrif o brosesau sy'n gysylltiedig â gweinyddu Cynllun Canolfan Rhagoriaeth Eryri ac yn cyfarfod â'r telerau ac amodau a gytunwyd arnynt gyda Chroeso Cymru. Fodd bynnag, mae ambell i le lle y gellid tynhau ychydig ar y rheolaethau yma. Yn ychwanegol, mae angen adolygu'r trefniadau presennol gydag un partner lle maent yn derbyn arian gan y Cyngor yn llawn ar eu gwariant ar y prosiect cyn i'r Cyngor dderbyn yr arian gan WEFO. Yn amlwg, mae risg yma i'r Cyngor fod ar eu colled yn ariannol petai WEFO neu Croeso Cymru'n gwrthod unrhyw elfen o'r cais.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yng Nghynllun Canolfan Rhagoriaeth Eryri gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau fod gwiriadau ariannol yn cael eu gwneud ar gwmnïau sy'n derbyn grant cyn mynd i gytundeb â hwy, yn enwedig pan fo angen sicrhau fod gan y cwmnïau y llif arian i dalu am y gwaith cyn derbyn yr arian grant.**

- **Dylid sicrhau fod ceisiadau am arian grant gan y partneriaid yn cael eu derbyn yn amserol.**

- **Dylid sicrhau fod ceisiadau'n cael eu hanfon yn amserol i Croeso Cymru.**

- **Dylid ychwanegu colofn i'r rhestr asedau i gynnwys gwybodaeth am gyfanswm yr arian grant wnaeth ariannu'r ased. Yn ychwanegol, awgrymir y dylid derbyn cadarnhâd Croeso Cymru os oes angen cynnwys llwybrau beicio a thebyg ar y rhestr asedau.**

- **Dylid derbyn copi llawn o bolisi caffael y Comisiwn Coedwigaeth.**

- **Dylid derbyn copi o bolisi yswiriant sy'n dangos atebolrwydd cyhoeddus ac asedau ar gyfer rhannau gweithredol o'r prosiect.**

# MANDDALIADAU
## Gofal Cwsmer

<u>Bwriad yr Archwiliad</u>
Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod system rheolaeth a pholisi digonol mewn lle ar gyfer manddaliadau a'u bod yn cydymffurfio gyda'r Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986 a'r Ddeddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995.

<u>Cwmpas yr Archwiliad</u>
Adolygu polisïau, trafodion y cyfriflyfr a'r ffeiliau cefnogol ar gyfer manddaliadau yn 2010/11 a sicrhau bod system rheolaeth ddigonol mewn lle ar gyfer gosod manddaliadau, sefydlu a chasglu rhenti, gwariant ar wasanaethau a chadw cofnodion cefnogol.

<u>Prif Ddarganfyddiadau</u>
Darganfuwyd bod gan yr Uned Eiddo weithdrefnau wedi eu sefydlu ar gyfer rheoli manddaliadau gyda threfniadau safonol mewn lle ar gyfer hysbysebu manddaliadau i'w gosod a system bwyntiau ar gyfer gwerthuso ceisiadau ymgeiswyr, ond nid yw'r rhain wedi cael eu cofnodi mewn polisi gan yr Uned Eiddo. Panel Manddaliadau sy'n dethol ymgeiswyr ar gyfer eu cyfweld yn ogystal â chynnal y cyfweliadau i ddewis yr enillydd. Gwelwyd bod penderfyniadau'r Panel Manddaliadau yn gwrthdaro'r system pwyntiau, gydag ymgeiswyr ddim yn cael eu gwahodd i gyfweliad er eu bod yn sgorio'n uchel. Mae'r canlyniad yma yn codi amheuon am werth y system pwyntiau yn ei ffurf gyfredol.

Gwelodd yr archwiliwr bod yr Uned Eiddo wedi cynhyrchu cytundeb safonol ar gyfer manddaliadau a bod cytundebau yn ei le rhwng y Cyngor a'r tenantiaid. Mae'r cytundeb yn cynnwys amodau perthnasol ynglŷn â swm rhent, trefniadau talu rhent a'r trefniadau gyda chynnal adolygiadau rhent.

Darganfuwyd nad oedd y Cyngor wedi anfonebu am daliadau rhent yn amserol. Ar gyfer y sampl o anfonebau a ddetholwyd, ymddengys mewn rhai achosion bod yr Uned Eiddo wedi talu anfonebau am gyflenwadau ar gyfer rhai manddaliadau heb wneud ymgais i dderbyn cyfraniad gan y tenantiaid.

**<u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(C) Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yng ngweinyddiaeth Manddaliadau gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid diweddaru'r Polisi Manddaliadau i ymgorffori'r holl elfennau perthnasol megis bod cyfrifoldebau swyddogion ac aelodau'n eglur ynghyd â threfniadau penodi, monitro a.y.b.**

- **Dylid sefydlu system sgorio gynhwysfawr ar gyfer y broses o sefydlu tenant newydd sy'n ymgorffori disystyru ymgeiswyr os na gyrhaeddant yr elfennau craidd (h.y. pum mlynedd o brofiad) a dylai'r elfennau eraill gael eu pwyso yn unol â meini prawf penodol. Dylid ystyried mabwysiadu trefn o'r fath yn y Polisi Gosod Manddaliadau i'w gyflwyno i'r pwyllgor perthnasol.**

- **Dylid paratoi adroddiadau i'r Uwch Syrfewr Stadau sy'n cynnwys ôl-ddyledion Manddaliadau yn unig gan gynnwys nodiadau o sefyllfa bresennol yr Uned Incwm mewn perthynas â unrhyw gamau ad-ennill.**

# TREFN GWYNO GWASANAETHAU CYMDEITHASOL
## Gwasanaethau Cymdeithasol

<u>Bwriad yr Archwiliad</u>
Sicrhau bod rheolaeth a dulliau priodol i'r drefn gwyno oddi fewn y Gwasanaeth Cymdeithasol.

<u>Cwmpas yr Archwiliad</u>
Gwirio sampl o gwynion mwyaf diweddar Gwasanaethau Cymdeithasol a dilyn y broses o'r cychwyn i'w ddiweddglo er mwyn asesu'r rheolaethau mewnol sy'n bodoli er mwyn sicrhau bod amcanion y broses yn cael eu gwireddu.

<u>Prif Ddarganfyddiadau</u>
Ar y cyfan gwelwyd bod trefniadau priodol mewn lle, ond bod rhai agweddau angen sylw. Cynhaliwyd profion archwilio ar 21 o feysydd rheolaeth fewnol yn y gwasanaeth. Dangosodd y profion bod rheolaeth fewnol da yn bodoli mewn 13 o'r meysydd hyn, ond roedd angen sylw pellach i sicrhau fod cwynion yn cael eu hymateb o fewn amser penodol yn unol â'r polisi, a bod unrhyw wersi i'w dysgu yn cael eu monitro yn ffurfiol er mwyn sicrhau nad yw'r un camgymeriadau yn digwydd eto yn y dyfodol.

**<u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn nhrefn gwyno Gwasanaethau Cymdeithasol gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau ar bob achlysur bod yr achwynydd yn derbyn ymateb o fewn yr amserlen yn unol â'r polisi "Trefn Gwyno a Chynrychiolaeth Gwasanaethau Cymdeithasol." Pan mae angen estyniad i'r amserlen, dylid defnyddio llythyr dâl yn amserol a sicrhau bod ymateb yn cael ei anfon o fewn y dyddiad newydd.**

- **Ar ddiwedd ymateb Cam 1, mae'n hanfodol bod yr achwynydd yn cael cyfle ffurfiol fynd â'r mater ymlaen i Cam 2 (cwyn mwy ffurfiol) os dymunir.**

- **Byddai'n ymarfer da petai trefn o ddatrys unrhyw broblem rhwng yr archwiliwr â'r Awdurdod yn cael ei gynnwys o fewn y gytundeb sy'n cael ei arwyddo gan y ddau barti.**

- **Dylid sicrhau bod adroddiad yn cael ei dderbyn gan yr ymchwiliwr, cyn i ddyddiad y cytundeb rhwng yr awdurdod a'r ymchwilydd ddod i ben.**

- **Er bod gwersi i'w dysgu yn cael eu nodi mewn adroddiad chwarterol a blynyddol, mae angen ffurfioli trefn o fonitro fod y gwersi yn cael eu dysgu a gweithredu, er mwyn sicrhau nad yw'r un camgymeriadau yn cael eu hail-adrodd yn y dyfodol.**

# GWASANAETH CYFIAWNDER IEUENCTID
## Gwasanaethau Cymdeithasol

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod rheolaethau mewnol digonol yn bodoli yn nhrefniadau llywodraethu a gweinyddu Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd a Môn er mwyn sicrhau eu bod yn unol ag ymarfer da ac yn gwarchod buddiannau Cyngor Gwynedd.

Cwmpas yr Archwiliad

Mae'r archwiliad yn cwmpasu gwirio trefniadau llywodraethu a gweinyddu partneriaeth Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd a Môn. Ni fydd yr archwiliad yn cwmpasu trefniadau gweinyddu cyllid gan ei fod wedi bod yn destun archwiliad arall yn ddiweddar, sef archwiliad 'Grant Goruchwyliaeth Ddwys ac Arsylwi'.

Prif Ddarganfyddiadau

Y prif ddarganfyddiadau sy'n deillio o'r archwiliad yw'r ffaith bod y bartneriaeth wedi cwrdd â'r safonau perfformiad sy'n ofynnol yn llwyddiannus a bod arolygwyr allanol wedi nodi gwelliant garw yn y gwaith aml-asiantaeth. Fodd bynnag, mae Cyngor Gwynedd yn cyfrannu mwy na'i chyfran deg tuag at gyllideb y bartneriaeth, sefyllfa sydd eisoes wedi dod i sylw swyddogion Gwynedd ar lefel Prif Weithredwr. Yn ogystal, ni welwyd prawf bod dogfennau a pholisïau ffurfiol y bartneriaeth, megis y cytundeb cyfreithiol a'r memorandwm o ddealltwriaeth, wedi eu cytuno a'i llofnodi gan holl aelodau'r Bwrdd Rheoli.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Er nad yw'r memorandwm o ddealltwriaeth a'r cylch gorchwyl yn ddogfennau cyfreithiol, dylid ystyried nodi yn y 'cytundeb cyfreithiol' bod disgwyl i aelodau'r Bwrdd Rheoli gytuno i ymglymu i'r egwyddorion sydd yn y dogfennau.**

- **Dylid sicrhau bod Cyngor Gwynedd yn cael eu cynrychioli yng nghyfarfodydd y Bwrdd Rheoli ar bob achlysur.**

- **Dylai bod dogfen/cofnod yn cael ei gadw, wedi ei arwyddo gan holl aelodau'r Bwrdd, sy'n cadarnhau eu bod wedi derbyn y cytundeb cyfreithiol, memorandwm o ddealltwriaeth, cylch gorchwyl a datganiad o fwriad.**

- **Buasai'n ymarfer da ystyried petai aelodau'r Bwrdd Rheoli yn cwblhau ffurflenni datgan diddordeb.**

# DEFNYDD IS-GONTRACTWYR, UNED DARPARU GWAITH
## Priffyrdd a Bwrdeistrefol

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad fydd sicrhau bod y Gwasanaeth Gwaith Priffyrdd yn penodi isgontractwyr yn unol â Rheolau Gweithdrefn Cyngor Gwynedd ac ymarfer da.

Cwmpas yr Archwiliad

Cwmpas yr archwiliad yw asesu'r drefn o ddefnyddio isgontractwyr gan y Gwasanaeth Gwaith Priffyrdd gan adolygu'r ffeiliau perthnasol i sicrhau bod tystiolaeth yn bodoli er mwyn gallu arddangos bod y gwaith wedi ei osod yn unol â'r rheolau caffael.

Prif Ddarganfyddiadau

Mae dau brif ddarganfyddiad yn cael eu hamlygu o'r archwiliad hwn, sef y diffyg rhesymeg dros ddethol cwmnïau penodol i gyflawni'r gwaith, a'r diffyg ymlyniad tuag at Reolau Gweithdrefn Contractau'r Cyngor, wrth ddilyn trefniadau hysbysebu a chynnal rhestr gymeradwy.

Pryd mae'r Gwasanaeth yn cystadlu am waith maent yn gorfod gweithredu fel unrhyw gwmni masnachol arall yn y farchnad, a gall dilyn trefniadau caffael ffurfiol greu anhawster oherwydd amserlen dynn y comisiwn. Wrth gwrs, nid oes gan gwmnïau preifat, sy'n cystadlu am yr un gwaith, yr un rhwymedigaethau â Gwasanaeth Gwaith Priffyrdd i ddilyn rheolau caffael. Yn fasnachol fe all hyn fod yn anfantais, ond ar y llaw arall mae'r Gwasanaeth yn cael gwaith gwarantedig sy'n fantais iddynt dros gwmnïau preifat eraill. Ond fel rhan o awdurdod cyhoeddus mae gan y Gwasanaeth reidrwydd i ddilyn egwyddorion rheolau caffael Ewrop.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn nhrefniadau defnyddio is-gontractwyr gan y Gwasanaeth Gwaith Priffyrdd gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Mae angen i'r Gwasanaeth Gwaith Priffyrdd ofalu bod ei strategaeth brisio ar gomisiynau allanol yn sicrhau ei bod yn parhau'n gystadleuol yn y farchnad.**
- **Dylai'r Gwasanaeth Gwaith Priffyrdd sefydlu a chynnal a chadw rhestr gymeradwy o gontractwyr sy'n addas ac sy'n cydymffurfio gyda Rheolau Gweithdrefn Contractau.**
- **Os nad yw'r Gwasanaeth Gwaith Priffyrdd yn sefydlu a chadw rhestr gymeradwy o gontractwyr sy'n gyfredol, mae angen iddynt sicrhau ei bod yn dethol contractwyr drwy'r weithdrefn agored (gwahodd yr holl gwmnïau sydd wedi mynegi diddordeb i dendro ar ôl cyhoeddi hysbyseb) neu'r weithdrefn gyfyngedig (gwahodd y cwmnïau a ddetholir gan y Cyngor ar ôl hysbysebu a chynnal trefn cyn-gymhwyso).**
- **Dylai dyfynbrisiau am waith is-gontractio gael eu derbyn a'u cofnodi yn annibynnol o'r swyddog sy'n trefnu'r gwaith.**

# PROSIECT GORFODAETH AMGYLCHEDDOL
## Priffyrdd a Bwrdeistrefol

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod gan yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol drefniadau cadarn gogyfer cyflawni maes gwaith gorfodaeth o dan y Prosiect Amgylchedd o Ansawdd.

Cwmpas yr Archwiliad

Cwmpas yr archwiliad oedd archwilio prif feysydd y cynllun gorfodaeth, sef sicrhau bod y Gwasanaeth wedi ei sefydlu ar seiliau cadarn, bod y Gwasanaeth yn gweithredu yn unol â'r amcanion gwreiddiol, bod trefniadau cadarn gogyfer gweithredu'r drefn cosbi, nad oes dyblygu swyddogaeth yng Nghyngor Gwynedd a bod y Gwasanaeth yn llwyddo a chyflawni ei amcanion.

Prif Ddarganfyddiadau

Cynhaliwyd profion archwilio ar 34 o reolaethau mewnol. Dangosodd y profion fod rheolaethau mewnol da yn bodoli mewn 27 o'r rheolaethau hyn. Y prif wendidau a welwyd yn ystod yr archwiliad yw nad oes defnydd addas yn cael ei wneud o'r system MCS Enforcer i gofnodi a rheoli gweithgareddau gorfodaeth. Gwelwyd hefyd bod ymrwymiad yr Heddlu i'r Protocol i gyd-weithio ar brosiect Amgylchedd o Ansawdd yn y maes yma wedi dirywio, sydd wedi arwain at lai o incwm yn cael ei gasglu.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn nhrefniadau Prosiect Gorfodaeth Amgylcheddol gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylai'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol atgyfnerthu'r Protocol sydd rwng Cyngor Gwynedd a Heddlu Gogledd Cymru er mwyn sicrhau bod troseddau amgylcheddol yn derbyn y sylw teilwng.**

- **Dylai'r Rheolwr Gwasanaethau Stryd ddefnyddio'r adroddiad "Enforcement Summary Sheet" i fonitro gorchudd y Gwasanaeth ar draws y sir. Dylid ystyried cynhyrchu rhaglen waith misol sy'n gwarantu bod sylw yn cael ei roi i holl ranbarthau Gwynedd.**

- **Dylid sicrhau fod trefniadau mewn lle i gysoni'r incwm sydd wedi ei gofnodi ar system MCS Enforcer gyda'r incwm sydd wedi ei draddodi ar Gyfriflyfr y Cyngor.**

- **Dylai'r Uned Gyllid Grwp Amgylchedd neu Uwch Reolwr Gwastraff a Comisiynu derbyn adroddiad yn fisol o achosion ble mae swyddogion gorfodaeth wedi dileu dirwyon. Dylid dewis sampl o ddirwyon sydd wedi eu dileu er mwyn derbyn eglurhad a chyfiawnhad o'r rhesymau dros ddileu'r dirwyon.**

## RHEOLAETH DATBLYGU - PENDERFYNIADAU DIRPRWYEDIG
**Rheoleiddio**

Bwriad yr Archwiliad
Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau digonol gan y Gwasanaeth Cynllunio er mwyn gweithredu penderfyniadau dirprwyedig ar geisiadau cynllunio.

Cwmpas yr Archwiliad
Cwmpas yr archwiliad oedd adolygu tystiolaeth oedd yn sail i wneud penderfyniadau dirprwyedig drwy wirio cofrestr buddiannau staff, canllawiau'r Adran a'r cyfiawnhad sydd ar ffeiliau ceisiadau cynllunio. Profwyd 27 o reolaethau disgwyliedig o fewn y drefn cynllunio.

Prif Ddarganfyddiadau
Prif ddarganfyddiadau'r adroddiad oedd:

- Bod tryloywder a hygrededd yn y modd mae Cyngor Gwynedd yn gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio dirprwyedig. Mae unffurfiaeth yr adroddiadau yn arddangos hygrededd a phroffesiynoldeb ac yn sicrhau bod ystyriaethau cynllunio yn cael eu mantoli a'u hasesu, ac mae gosod yr adroddiadau ar y wefan gyhoeddus yn sicrhau tryloywder i'r dyfarniad.

- Mae gan swyddogion achos cynllunio y gefnogaeth rinweddol er mwyn asesu a dod i benderfyniad ar geisiadau cynllunio, e.e. y Cynllun Datblygu Unedol, derbyn hyfforddiant cyson ar faterion cyfredol a chefnogaeth weinyddol i wneud y gwaith hysbysebu a chydnabod y ffioedd. Mae'r drefn o sicrhau bod ceisiadau yn cael eu cyfeirio at y Pwyllgor Cynllunio yn ddibynnol ar swyddogion proffesiynol yn adnabod ceisiadau sydd angen eu cyfeirio at y Pwyllgor yn unol â'r Côd Ymarfer Cynllunio a Hawliau Dirprwyedig Swyddogion, ond mae pob cais yn cael ei wirio gan y Rheolwr Rheolaeth Datblygu neu'r Rheolwr Gwasanaeth Cynllunio.

- Mae risg o apeliadau am "non-determination" o dan adran 78 o Ddeddf Gwlad a Thref 1990 os nad yw'r Awdurdod yn dod i benderfyniad ar gais o fewn 8 wythnos neu 13 wythnos ar ddatblygiadau sylweddol. Yn ystod 2010/11, dim ond 57.8% o geisiadau Cyngor Gwynedd sy'n cael eu penderfynu o fewn y cyfnod penodol yma. Nid yw'r adroddiad yn cynnig argymhelliad ar y pwynt hwn gan ei fod yn cael sylw o dan y drefn craffu a rheoli perfformiad.

**Barn yr Archwiliad**

**(A) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb yn Rheolaeth Datblygu - Penderfyniadau Dirprwyedig gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.**